



# Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

## Presenoldeb | Attendance



Mae presenoldeb da'n bwysig iawn yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda. Disgwyliwn i'n disgyblion gyflawni presenoldeb o 97% o leiaf.

**Gellir olrhain presenoldeb eich plentyn yn fyw trwy fewngofnodi a defnyddio Ap neu wefan ClassCharts.** Rhoddir adroddiad ar bresenoldeb disgyblion i'r rhieni bob tymor gan ddefnyddio llythyrau, adroddiadau a system goleuadau traffig. Cofnodir presenoldeb blwyddyn ar ôl blwyddyn i sicrhau ein bod yn olrhain ac yn diogelu'n disgyblion yn ofalus.

Mae'n bwysig i ni gydweithio i geisio gwneud ein gorau i wella presenoldeb disgyblion. Gweithiwn yn agos gyda Chyngor Sir Rhondda Cynon Taf a'n Swyddog Lles Addysg sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i edrych ar bob un o'n cofrestrau i fonitro presenoldeb pob disgybl.

Good attendance is very important at Ysgol Gyfun Cwm Rhondda. We expect our pupils to achieve at least 97% attendance.

**Your child's attendance can be tracked live by logging in and using the ClassCharts App or website.** Pupils' attendance is also reported termly to parents using letters, reports and a traffic light system. Attendance is recorded year on year to ensure we track and safeguard our pupils carefully.

It is important we work together to try our best to improve pupil attendance. We work closely with Rhondda Cynon Taf Council and our Attendance & Wellbeing Officer who visits the school regularly to look at all our registers to monitor all pupil attendance.

**"Addysg yw'r arf mwyaf pwerus y gallwch ei ddefnyddio i newid y byd."** | **"Education is the most powerful weapon that you can use to change the world."**  
Nelson Mandela

Cysylltir cyflawniad yn aml gyda lefel presenoldeb uchel. Pwysleisir pwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb yn gyson drwy'r flwyddyn.

### Gweithdrefnau prydlondeb a phresenoldeb

Rydym yn gofyn yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol drwy adael neges ar ein peiriant ateb os yw eich plentyn yn absennol ar unrhyw ddiwrnod. Os yw presenoldeb eich plentyn yn disgyn o dan ein targedau ni fel ysgol yn ystod y flwyddyn byddwn yn cysylltu â chi ar ffurf galwad ffo'n neu lythyr. Os oes pryder am bresenoldeb eich plentyn byddwn yn hysbysu ein Swyddog Presenoldeb, Mrs Elisabeth Ryder, a bydd hi'n cysylltu â chi i drafod ymhellach.

#### Gofynnwn i rieni/gwarchodwyr i:

- Gynnal arferion da o bresenoldeb cyson a phrydlondeb gan eich plant.
- Cysylltu â'r ysgol **cyn 10:00** ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb o'r ysgol.
- Os na dderbynnir galwad ffo'n, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni.
- Os na roddir rheswm am yr absenoldeb, bydd absenoldeb anawdurdodedig yn cael ei gofnodi.
- Lle'n bosibl, gofynnwn i rieni osgoi trefnu apwyntiad meddygol yn ystod oriau ysgol. Cysylltwch â ni i esbonio os oes apwyntiad gan eich plentyn.
- Tra yn yr ysgol – ystyir unrhyw absenoldeb o wers heb ganiatod yr athro yn "driwantio".**

There is a proven link between high attendance levels and attainment. This is why we remind the pupils constantly of the importance of high attendance and punctuality.

### Procedures for punctuality and attendance

We kindly ask all parents to contact the school at the earliest convenience and leave a detailed message on the answering machine if your child is absent. If your child's presence in school falls below a level we judge to be acceptable we will contact you. If this is a regular occurrence, you will be contacted by the School Attendance Officer, Mrs Elisabeth Ryder who will arrange a meeting between school and parents.

#### We ask parents/carers to:

- Support good habits of regular and punctual attendance in their children.
- Contact the school **before 10:00** on the first day of any absence if your child cannot attend through illness or any other reason. If no contact is made you will be contacted by the school.
- If no reason for the absence is provided, an unauthorised absence will be entered.
- Where possible, parents should avoid arranging medical appointments during the school day. If absolutely necessary, please contact us and let us know.
- While in school, absence from any lesson without permission of the teacher is considered as truancy.**

### Amser Dechrau Ysgol

**Mae'r ysgol yn cychwyn yn brydlon am 08:40 gyda chofrestru boreol.**

Mae'n rhaid i ddisgyblion gyrraedd eu cyfnod cofrestru yn brydlon am 08:40.

**Mae ychydig o deuluoedd yn parhau i gyrraedd yr ysgol ar ôl 08:40. Gwnewch bob ymdrech i gyrraedd cyn 08:40 gan y bydd eich plentyn yn cael ei farcio fel un hwyrach os bydd yn cyrraedd ar ôl yr amser hwn.**

*Mae'n hanfodol i unrhyw blentyn sydd yn cyrraedd safle'r ysgol yn hwyr arwyddo mewn yn y brif swyddfa.*

### School Start Time

**School starts promptly at 08:40 with morning registration.**

All pupils are required to be present in their registration period at 08:40.

**A few families continue to arrive at school after 08:40. Please make every effort to arrive prior to 08:40 as your child will be marked as later if arriving after this time.**

*It is of utmost importance that any pupils who are late arriving at the school premises sign in in the main office.*

### Gwyliau

- Polisi'r RhCT ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor yw 10 diwrnod ysgol mewn unrhyw un flwyddyn academaidd. Mae ffurflenni cais gwyliau ar gael o'r ysgol neu wefan yr ysgol.
- Rhaid gofyn am ganiatâd gwyliau 10 diwrnod **cyn** y gwyliau neu bydd y gwyliau yn cael ei nodi fel un anawdurdodedig.
- Bydd y Prifathro yn awdurdodi gwyliau hyd at ac yn cynnwys 10 diwrnod gan ystyried canran presenoldeb ac amgylchiadau'r plentyn.
- Bydd unrhyw wyliau a gymerir y tu hwnt i'r 10 diwrnod ysgol yn cael eu nodi fel rhai anawdurdodedig a byddwch yn cael gwybod trwy lythyr.

### Holidays

- RCT policy for holidays during term time is for 10 school days in any one academic year. Holiday application forms are available from the school or the school website.
- Holiday consent must be requested 10 days **before** the holiday, or the holiday will be noted as unauthorised.
- The Headteacher will authorise holidays up to and including 10 days by considering the child's attendance percentage and circumstances.
- Any holidays taken over and above the 10 school days will be entered as unauthorised and you will be informed via a letter.

**"Nid dysgu am ffeithiau yw addysg, ond hyfforddiant y meddwl i feddwl."** | **"Education is not the learning of facts, but the training of the mind to think."**  
Albert Einstein

**Presenoldeb cyson yn yr ysgol  
ydy'r ffactor mwyaf pwysig  
i lwyddiant eich plentyn.**

**Regular attendance at school  
is the single most important factor  
in your child's success.**

## Pam Mae Presenoldeb Da yn Bwysig? | Why is Good Attendance Important?

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn ymroi i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial o ran dysgu ac yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Un o agweddau pwysigaf cael cymwysterau da a dysgu sut i lwyddo mewn bywyd yw sicrhau bod ganddynt gofnod presenoldeb a phrydlondeb da. Rydym yn sicr o fynyachu i'r eithaf, bydd y disgyblion yn cael profiad addysgol gwell.

*Mewn byd delfrydol, hoffai pob ysgol petai'r holl fyfyrwyr yn cael presenoldeb o 100%. Gallai hyn fod yn bosibl ei gyflawni o ystyried faint o wyliau ysgol y mae gan blant hawl iddynt. Fodd bynnag, cydnabyddwn weithiau bod disgyblion yn rhy sâl i fynd i'r ysgol neu efallai y bydd argyfwng teuluol y mae'n rhaid i'r plentyn ddelio ag ef.*

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn mwynhau dathlu llwyddiant ym mhob maes. Er mwyn dathlu presenoldeb da a chydabod gwell presenoldeb, mae gennym ystod o gystadlaethau a gwobrau ar gyfer disgyblion sy'n dangos ymrwymiad i bresenoldeb rhagorol. Mae ennill taleb, neu un o'n gwobrau eraill yn wych, ond yr hyn sydd bwysigaf i'w gofio yw mai cael y graddau y mae'ch plentyn yn ei haeddu o ganlyniad i bresenoldeb da yw'r wobwr fwyaf.

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda is committed to ensuring that every pupil reaches their full learning potential and makes good progress in school. One of the most important aspects of gaining good qualifications and learning how to succeed in life is to ensure that they have a good record of attendance and punctuality. We are certain that through maximum attendance, pupils will have a greater educational experience.

*In a perfect world every school would like all students to have 100% attendance. This would appear achievable when you consider the amount of school holidays that the children are entitled to. However, we acknowledge that sometimes pupils are too ill to attend school or there may be a family emergency that the child has to attend.*

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda enjoys celebrating success in every area. To celebrate good attendance and in recognition of improved attendance we have a range of competitions and rewards for pupils who show a commitment to excellent attendance. Achieving rewards and other prizes is fantastic, but what is more important is to remember that getting the grades your child deserves due to good attendance is the biggest prize.



## Sut Rydym yn Eich Hysbysu | How We Keep You Informed



Trwy droi at y **ClassCharts** fel Rhiant, gallwch adolygu presenoldeb eich plentyn dros y flwyddyn ysgol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddynodi unrhyw bryderon am bresenoldeb yn gynnar iawn.

- Os bydd presenoldeb eich plentyn yn cwmpo **islaw 95%**, byddwn yn anfon neges destun atoch i'ch gwneud chi'n ymwybodol o hyn.
- Byddwn yn gyrru ail llythyr atoch i'ch hysbysu os bydd presenoldeb eich plentyn yn cwmpo i **93%**.
- Os bydd presenoldeb eich plentyn yn cwmpo i **91%**, bydd hyn yn dod yn bryder sylweddol. Bydd y llythyr a gewch yn egluro difrifoldeb hyn a beth allai ddigwydd os na fydd presenoldeb yn gwell.
- **Ar 89% neu islaw** hynny, byddwn yn cysylltu â chi i drafod dros y ffôn neu'n eich gwahodd i'r ysgol i drafod ein pryderon am bresenoldeb eich plentyn. Mae'n bosibl y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth nad yw'ch plentyn yn ddigon da i fynd i'r ysgol ar ffurf llythyrau gan ymarferwyr meddygol neu dystiolaeth o apwyntiadau cleifion allanol parhaus.

*Mae cyfathrebu'n broses ddwy ffordd. Os oes gan eich plentyn faterion meddygol wedi'u diagnosio parhaus, rhowch wybod i ni. Rydym am weithio gyda rhieni a mwya'i gyd a wyddwn, mwya'i gyd y gallwn ni ei wneud i helpu.*

By accessing **ClassCharts** as a Parent you are able to review your child's attendance over the school year. This will allow you to identify very early any concerns about attendance.

- If your child's attendance drops **below 95%** you will receive a letter informing you of this.
- A second letter will be sent if your child's attendance drops to **93%**.
- Should your child's attendance drop to **91%** this is becoming a significant concern. The letter you will receive will make it clear the seriousness of this and what could happen if attendance does not improve.
- **At 89% or below** we will contact you to discuss by phone or invite you into school to discuss our concerns about your child's attendance. You can be asked to provide evidence that your child is unfit for school with letters from medical practitioners or evidence of ongoing outpatient appointments.

*Communication is a two-way process. If your child has ongoing diagnosed medical issues let us know. We want to work with parents and the more we know, the more we can do to help.*

## Sut y gall Presenoldeb Effeithio Llwyddiant | How Attendance Can Affect Achievement

Presenoldeb Attendance		Canlyniadau'r Flwyddyn Academaidd Gyfan Results for the Whole Academic Year	
Gwyrdd Green	100%	Ni chollwyd gwersi No lessons missed	
	99%	Colli rhyw 10 o wersi Missing around 10 lessons	
	98%	Colli rhyw 20 o wersi Missing around 20 lessons	
	97%	Colli rhyw 30 o wersi Missing around 30 lessons	
Oren Amber	96%	Colli rhyw 8 diwrnod o ysgol, colli 40 o wersi Missing about 8 days of school, 40 lessons missed	
	95%	Colli bron i 2 wythnos o ysgol, colli rhyw 45 o wersi Missing almost 2 weeks of school, around 45 lessons missed	
	93%	Colli rhyw 14 diwrnod o ysgol. Colled addysg arwyddocaol Missing about 14 days of school. A significant loss of education	
Coch Red	90-92%	Colled addysg arwyddocaol A significant loss of education	Colli rhyw 3 wythnos o ysgol Missing around 3 weeks of school
	86-89%	Colled dysgu difrifol a gall gael effaith andwyol ar gyflawniad a chyfleoedd bywyd.	Colli rhwng 4-6 wythnos o ysgol. Colli 95 gwers Missing between 4-6 weeks of school. 95 lessons missed
	81-85%	A serious loss of learning which can have a detrimental effect on achievement and life chances.	Colli rhwng 6-8 wythnos o ysgol. Colli 145 gwers Missing between 6-8 weeks of school. 145 lessons missed
	-80%		Colli dros 8 wythnos o ysgol. Colli 190 o wersi Missing between more than 8 weeks of school. 190 lessons missed



Presenoldeb dros 95% Attendance Over 95%  
= **Ardderchog Excellent**

90 – 95%  
= **Da Good**

islaw 90% below 90%  
= **is na'r cyfartaledd below average**